

Whitchurch Road / Flaxland Avenue – Adroddiad Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 15 a 30 Medi 2016 a'i ddiben oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol os yn bosibl.

Derbyniwyd pedwar ymateb gan aelodau'r cyhoedd yn y cyfnod hwn. Yn ychwanegol, derbyniwyd dau ymholiad cyn cynnal yr ymgynghoriad, mewn ymateb i Gylchlythyr gan gyn-Gynghorydd Ward a gyfeiriodd at y cynllun a gynigir.

Gellir crynhoi yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd:

- 1 Cefnogi'r cynllun
- 2 Cefnogi'r cynllun gyda sylwadau ychwanegol
- 1 Sylwadau / awgrymiadau
- 0 Anghytuno

Gellir crynhoi yr ymatebion a dderbyniwyd cyn yr ymgynghoriad fel a ganlyn:

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd:

- 0 Cefnogi'r cynllun
- 0 Cefnogi'r cynllun gyda sylwadau ychwanegol
- 0 Sylwadau / awgrymiadau
- 2 Anghytuno

Yng ngoleuni'r adborth a dderbyniwyd ac ystyriaeth bellach i weithrediad y groesfan a'r cyffyrdd, ymgymerwyd ag arolygon cerddwyr a cherbydau pellach. Yn dilyn y gwaith ymchwil pellach hwn a chydgysylltu â'r Cynghorwyr Ward blaenorol a phresennol, mae'r cynllun wedi ei ddiwygio yn unol â'r atodiad.

Mae'r cynllun presennol a adolygwyd yn golygu ardal gyffordd ddyrchafedig fwy a lledu'r droedffordd ar yr ochr ddeheuol a chulhau'r ffordd i hwyluso creu'r gyffordd ddyrchafedig.

Fel rhan o'r asesiad, diystyrwyd cyfleusterau croesi â signalau am y byddai gofyn adleoli'r groesfan 20 metr neu fwy ymhellach i ffordd o'r gyffordd, fyddai'n golygu ei symud ymhellach o lwybrau naturiol cerddwyr. Mae'r trefniadau a ddangosir ar gyfer y groesfan sebra o fewn y canllaw ar oddefiannau dylunio cenedlaethol ar hyn o bryd.

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

Sylw 1: Rwy'n breswlydd sy'n byw ar Quentin Street ac yn gweithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru fel meddyg. Mae'r cynnig i gael croesfan i gerddwyr rhwng Whitchurch Road/Flaxland Avenue yn un ardderchog ac yn un fydd yn gwneud fy nhaith i'r gwaith ac adre bob dydd yn haws a mwy diogel yn enwedig wedi gweithio oriau hir.

Ymateb: Dd/B

Sylw 2: Mae ceir sydd yn dod oddi ar gylchfan Gabalfa yn aml yn teithio ar hyd Whitchurch Road yn eithaf cyflym. Oherwydd y troad yn y ffordd mae'n anodd eu gweld hyd nes eu bod yn agos wrth sefyll ger Rhif 292, sydd hefyd yn golygu na fyddant yn

gweld y groesfan tan eu bod yn eithaf agos iddi. Mae croesfan ger Rhif 300 yn rhoi gwell golwg i'r ddau gyfeiriad ar gyfer ceir a cherddwyr.

Ymateb: Mae sylwadau wedi eu nodi a rhoddir ystyriaeth lawn iddynt fel rhan o ddatblygiad y cynllun. Dylid nodi fodd bynnag, nad yw'r cynnig ar gyfer y cynllun presennol yn effeithio ar y trefniadau parcio presennol. Drwy adleoli byddai croesfan ger rhif 300 yn gofyn am wreadu rhywfaint o lefydd parcio oherwydd hyd y marciau igam-ogam. Caiff arwyddion rhybuddio rhag blaen a bwrdd arafu eu cynnwys i liniaru'r gweledd a leihawyd. Mae'n debygol drwy gynnig cyfleuster yn y lleoliad hwn, i ffwrdd o'r llinell ddelfrydol i gerddwyr, na fyddai defnydd ar y cyfleuster.

Sylw 3: *Alla i hefyd ofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i gysgodfan bws fel y nodir isod gan mai dyma'r unig arhosfan fysiau ar yr ochr honno i'r ffordd sy'n mynd am ganol y ddinas ar Whitchurch Road sydd heb gysgodfan. Byddai culhau'r ffordd ar y pwynt yma yn gwneud yn iawn am hyn o ran sicrhau digon o le ar y palmant. I wneud hyn yn fwy cost effeithiol mae yna bedwar cysgodfan ar ochr Mynachdy i Gyfnewidfa Gabalfa a does bosib na ellid adleoli un o'r rheiny i'r man hwn oherwydd prinder y gwasanaethau bws sydd bellach yn aros yno.*

Ymateb: Mai darparu cysgodfan yn y lleoliad hwn y tu hwnt i gwmpas y cynllun hwn.

Sylw 4: *Carwn ddweud pa mor amhrisiadwy fyddai'r cyfleuster croesi hwn i breswylwyr lleol a phobl fydd angen croesi Whitchurch Road yn y man hwn, yn aml er mwyn mynd neu ddod o Ysbyty'r Waun. Mae Whitchurch Road bron â bod yn amhosibl ei chroesi ar adegau oherwydd y traffig trwm a chyflymder uchel y traffig ar hyd y ffordd. Weithiau mae'n cymryd rhai munudau cyn y gall pobl groesi. Mae hyn yn arbennig o wir am yr henoed, y rheiny a phramiau a'r rhai sydd ag anawsterau cerdded. Ychydig iawn o effaith fyddai gan y cynllun ar y rheoliadau parcio presennol oherwydd mae gan y rhan fwyaf o'r ffordd fydd yn newid linellau melyn dwbl, heb barcio i breswylwyr.*

Ymateb: Dd/B

Sylwadau a dderbyniwyd cyn yr ymgynghoriad hwn:

Sylw 1b: Roeddwn yn hynod o siomedig mai'r hysbysiad cyntaf ges i parthed y cynnig hwn oedd trwy gyfrwng Cylchlythyr Tîm Ffocws Dem/Rhydd Gabalfa oedd yn nodi i hwn fod yn ymgyrch dros y flwyddyn a fu. Nid wyf i na fy nghymdogion agosaf wedi cael ein hysbysu na'n holi mewn unrhyw fodd am y cynnig hwn. Mae diffyg cyfathrebu llwyr wedi bod gyda'r preswylwyr a effeithir fwyaf gan y groesfan sebra a gynigir. Rwy'n cael hyn yn eithaf brawychus ac wedi fy siomi yn fawr gan y cynghorwyr lleol i'r perwyl hwn. Yn ôl cylchlythyr y Dem/Rhydd rhifyn yr Haf 2016, "Mae pecyn ymgynghori llawn ar gael yma www.cardiff.gov.uk/transportprojects. 'Er gwaethaf dilyn sawl dolen ar y safle, ni allaf ddod o hyd i ddogfen o'r fath ac rwy'n gyrru'r llythyr cychwynnol hwn fel ymateb i'r ymgynghoriad.

Ymateb: Nid oedd Proses Ymgynghori'r Cyngor wedi dechrau. Roedd y wybodaeth ar gael pan ddechreuodd y Cyngor ar y broses ymgynghori ffurfiol.

Sylw 2b: Yn ôl llythyr y Dem Rhydd mae safle arfaethedig y groesfan ger tro yn y ffordd a chyn dwy gyffordd, arhosfan fysiau a chyfres o reiliau metel ar hyd un ochr i'r ffordd. Rwy'n bryderus iawn ac yn poeni'n fawr am oblygiadau diogelwch y cynnig hwn. Fy mhrif bryder yw y bydd plant yn cerdded/rhedeg ar draws yr hyn y tybiant sydd yn groesfan Sebra 'ddiogel' sydd yn amlwg yn y lleoliad gwaethaf posibl.

Ymateb: Mae elfen o berygl i bob croesfan, pob un yn amrywio rhwng y peryg tybiedig a'r peryg gwirioneddol, ond mae pob un yn gofyn am ryngweithio dwyffordd: rhwng y gyrrwr a'r cerddwr sydd yn aros i groesi'r ffordd.

Mae gwelededd ar ochr ddeheuol y gyffordd yn dda ac fel rhan o'r diwygiadau i'r cynllun, caiff rhan o'r rheiliau ei thynnu ynghyd â lledu'r droedffordd. Bydd y lleiniau gwelededd hefyd yn cael eu gwirio i benderfynu os yw'r rhan sy'n weddill o'r rheilen warchod (sydd yno oherwydd y gwahaniaeth rhwng lefel y droedffordd a'r lôn gerbydau), i gael ei ddisodli gan reiliau sydd â bariau wedi eu gwrthbwysio fydd yn gwella gwelededd. Mae gwelededd yr ochr ogleddol yn fwy cyfyngedig. Er mwyn lliniaru ar hyn, bydd gofyn cael bwrdd arafu a rhybuddion rhag blaen. Mae'r droedffordd hefyd wedi ei lledu i wella'r hyn gall llygaid ei weld.

Sylw 3b: Mae yna reiliau metel sy'n ymestyn yr holl ffordd ar hyd Whitchurch Road sy'n dod i ben ger 147. Gyferbyn â'r rheiliau mae yna arhosfan i fysiau. O ganlyniad, yr ardal sydd i'w defnyddio ar gyfer y groesfan sebra yw'r unig fan yr holl ffordd ar hyd y ffordd sy'n caniatáu mynediad i wasanaethau ambiwlans, injans tân a cherbydau argyfwng, casgliadau sbwriel (caiff yr holl finiau olwynion eu cludo yma am nad oes mynediad arall), tacsis a cherbydau i breswylwyr anabl a'r henoed yn enwedig, nwyddau a nwyddau a ddosberthir.


Ymateb: Fel rhan o'r diwygiadau i'r cynllun, bydd rhywfaint o'r droedffordd ar ochr ddeheuol y ffordd yn cael ei lledu a rhan o'r rheilen warchod yn cael ei thynnu i wella mynediad, gofod i'r droedffordd a gwelededd. Mae'r sylwadau wedi'u nodi ac fe'u hystyriar fel rhan o'r broses ddylunio fanwl. Dylid nodi fod caniatâd i wasanaethau brys aros ar farciau igam-ogam ar adeg o argyfwng.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir.

A Proud Capital
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3250 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3250 to request a paper copy of the post-consultation report.